24.02.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Un o fois y fan yn newid cyfeiriad

Sbwriel un dyn yw trysor dyn arall fel maen nhw'n dweud. Ac mae hyn i'w weld yn amlwg yn **Yn y Fan a'r Lle**, y gyfres sy'n dilyn dreifars faniau ar hyd a lled Cymru a thu hwnt.

Pan fydd dodrefn i'w cludo, llanast i'w sortio, ac ambell drysor i'w cynnig, mae 'na hogia' sy'n medru synhwyro bargen. Nhw sy'n atal tunelli o gelfi defnyddiol rhag glanio ar domenni sbwriel wrth roi cartref newydd i eiddo, bod yn rhywle newydd sbon, yn sêl bwt car, yn ocsiwn neu'n sgip.

Yn ystod y cyfnod clo heriol, penderfynodd Rhys Evans – un o hogia'r faniau – i newid trywydd ei fywyd rhyw fymryn, ac agor siop i werthu hen gelfi rystig a diddorol. Ymysg trugareddau rhyfeddol ei siop yn y Bala mae stolion wedi'u gwneud o hen seti tractor, llythrennau pitch defaid, hen gadeiriau hardd, poteli dŵr poeth hen ffasiwn, ffon fugail o gorn byffalo, meinciau capel a hen hysbyseb sigarennau wedi'i fframio.

"Ers pan o'n i'n 16 oed ro'n i'n gweithio adre ar y ffarm" meddai Rhys, sy'n byw yn y Bala. "A dwi 'di bod yn mynd i'r ffarm lle dwi'n helpu allan rŵan ers dros 25 mlynedd. Ond ar ôl bod yn gweithio i rywun arall, ro'n i 'di cyrraedd y pwynt lle o'n i 'di cyrraedd y 40 ac o'n i'n meddwl 'ah mae bywyd yn rhy fyr; dwi jest ishio gwneud rhywbeth i fi'n hun a dwi'n mynd i brynu a gwerthu pethau. O'dd 'na siop yn wag yn Bala, ac felly nes i gymryd honno drosodd - ac iddi!"

"Dwi'n eitha' licio cadw'r siop yn *minimalist* - dwi'm ishio rhoi gormod o stwff allan neu mae o jest yn dallu pobl. Dwi'n eitha' ffysi am be dwi'n prynu. 'Na i jest prynu pethau dwi'n licio sydd i 'nhast i. Mae 'na hanes a stori i lot o'r trugareddau."

Yn rhaglen yr wythnos hon, mae fan Rhys yn barod i gludo unrhyw fargeinion os ydi o'n dod o hyd i rai mewn ocsiwn ar-lein dros y ffin er mwyn eu gwerthu yn y siop.

"Fel rheol fydda i ddim yn mynd i'r ocsiwn oherwydd mae o ar ddydd Iau a fydda i yn y siop, a dwi'n gorfod gamblo os leci di, a phrynu dros y we" meddai Rhys. "Fel arfer ti'n olreit, ond ma' 'na rai dodrefn dwi wedi prynu – ma'n edrych yn dda ar y we a wedi ti fynd yno i weld nhw, ti'n meddwl 'be yfflon 'di hwn?'"

Sut siâp fydd ar y trugareddau fydd Rhys wedi ennill yn yr ocsiwn ar-lein? A fydd trysorau drudfawr yn eu mysg? Bydd rhaid gwylio…

**Yn y Fan a'r Lle**
**Nos Lun 7 Mawrth 8.25, S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Darlun ar gyfer S4C**

24.02.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# A change of direction for van man Rhys

One man's trash is another man's treasure, so the saying goes. And this is all too evident in **Y Fan a'r Lle**, a television series which follows van drivers across Wales and beyond.

When there is furniture to move, a mess to tidy and the odd treasure up for grabs, there are people who can sniff out a bargain. Their work in finding new homes for a whole host of possessions, at the car boot sale, auction house, skip or elsewhere, prevents tonnes of useful objects from being thrown in the landfill.

During the lockdown, one of the men in a van, Rhys Evans, decided to change direction and open a shop selling quirky rustic objects and furniture. Among the fascinating things displayed in his shop window in Bala, are stools made from old tractor seats, sheep pitch branding letters, beautiful antique chairs, old fashioned hot water bottles, a shepherd's crook made out of buffalo horn, chapel benches and a framed vintage cigarette advert.

"Ever since I was 16, I was working at home on the farm," said Rhys, who lives in Bala. "And I've been going to the farm where I help out for over 25 years now. But after working for someone else, I got the point where I had reached 40 and I thought, 'life is too short'; I just wanted to do something for myself and I'm going to buy and sell things. There was an empty shop in Bala, so I took it over - and went for it!"

"I quite like keeping the shop minimalist – I don't want to put too many things out, or it can blind people. I am quite fussy about what I buy in. I will just buy things that I like, which are to my taste. There is a lot of history behind these fascinating objects."

In this week's programme, Rhys is hoping to bag some more bargains to sell in his shop in an online auction taking place across the border.

"Usually, I wouldn't go to the auction because it's on a Thursday and I'm in the shop, so I've got to gamble in a way and buy online," said Rhys. "More often than not, that's OK, but there have been some pieces of furniture that I've bought – they look good on the internet, but when you actually go and see them, you think, 'what on earth is this'?"

How will Rhys get on with his online bargain-hunting? Will there be any valuable treasures? Watch **Yn y Fan a'r Lle** to find out...

**Yn y Fan a'r Lle**
**Monday 7 March 8.25, S4C**
**English and Welsh subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Darlun production for S4C**